Undeb Myfyrwyr PCYDDS
UWTSD Students' Union

PECYN CYMORTH UNIONDEB ACADEMAIDD

Y Pecyn Cymorth Uniondeb Academaidd hwn yw eich canllaw cyflym i ddeall Uniondeb Academaidd, sut i osgoi camgymeriadau cyffredin a all arwain at Gamymddwyn Academaidd, a sut i gael mynediad at gymorth.

GWASANAETH CYNGHORI

ANNIBYNNOL
CYFRINACHOL
AM DDIM

“Mae’r pecyn cymorth hwn yn ddefnyddiol i fyfyrwyr, gan y gellir ei ddefnyddio fel canllaw trwy gydol eich taith academaidd. Trwy gydol fy nghyfnod fel llywydd y campws, rydw i wedi derbyn adborth gan fyfyrwyr ynghylch agwedd academaidd bod yn fyfyriwr prifysgol, fel cwestiynau neu gamddealltwriaeth ynghylch prosesau penodol a pha gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw

Bydd y Pecyn Cymorth Uniondeb Academaidd yn helpu myfyrwyr i ddeall unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw ynghylch eu gwaith, ac yn ganllaw i fyfyrwyr er mwyn helpu i atal camymddwyn academaidd.

Fel Llywydd Campws Llundain a Birmingham, rwyf wedi gosod amcan i wella hyder myfyrwyr mewn uniondeb academaidd, gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ffordd gyfrifol a meithrin sgiliau.

Bydd y tîm Cynghori a fi’n cydweithio yn yr ymdrech hon i gynyddu dealltwriaeth a hyder pan fydd myfyrwyr yn defnyddio’r pecyn cymorth. Byddwn yn cydweithio i rannu’r pecyn cymorth hwn a chefnogi myfyrwyr trwy gydol eu taith academaidd, â’r nod o gynyddu ymgysylltiad ag adnoddau ataliol, lleihau achosion o Gamymddwyn Academaidd, a chynyddu hygyrchedd gwybodaeth i fyfyrwyr.”



– Gwyneira Davies

Llywydd Llundain a Birmingham

Croeso i'ch Pecyn Cymorth

Gall Uniondeb Academaidd swnio'n gymhleth, neu'n frawychus, p'un a ydych chi'n newydd i addysg, yn dychwelyd i astudiaethau, neu'n dal i ddatblygu hyder mewn ysgrifennu academaidd. Does dim disgwyl i chi wybod popeth ar unwaith, a gall Uniondeb Academaidd fod yn rhywbeth rydych chi'n ei ddysgu a'i ddatblygu trwy gydol eich amser yn y brifysgol.

Mae Uniondeb Academaidd yn golygu bod yn onest am eich gwaith, sut yr aethoch chi ati i'w lunio, a'r ymchwil a wnaed i gyrraedd yno. Mae'n golygu rhoi cydnabyddiaeth i syniadau pobl eraill a pheidio â cheisio honni mai eich syniadau chi ydyn nhw.

Pan nad yw myfyrwyr yn ymgorffori Uniondeb Academaidd yn eu gwaith, mae'n creu risg o Gamymddwyn Academaidd sy'n broses ddifrifol yn y brifysgol a gaiff ei sbarduno pan fo pryderon nad eich gwaith eich hun yw'r gwaith rydych chi wedi'i gynhyrchu.

Nid yw'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn cyflawni Camymddygiad Academaidd yn fwriadol, ac yn aml gall ddigwydd oherwydd camddealltwriaeth, pwysau amser o amgylch dyddiadau cau, neu ddiffyg eglurder ynghylch disgwyliadau ar gyfer aseiniad.

Angen Cymorth Nawr?

Mae'r canllaw hwn i'w ddefnyddio ochr-yn-ochr â chanllawiau'r brifysgol, a disgwylir i fyfyrwyr ddilyn Polisi'r Brifysgol, a'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys ym Manyleb yr Asesiad. Nid yw'r canllaw hwn yn disodli'r Polisi a'r canllawiau sy'n bodoli eisoes a ddarperir gan y Brifysgol.

Am ragor o wybodaeth am Bolisi Camymddygiad Academaidd y Brifysgol, ewch i: www.uwtsd.ac.uk/procedures-academic-appeals-complaints-and-other-student-cases

Os ydych chi'n poeni am Uniondeb Academaidd, neu Gamymddygiad Academaidd, gallwch gysylltu â ni yn: **su.advice@uwtsd.ac.uk**

Yr hyn a gewch chi yma:

1. Beth yw Uniondeb Academaidd a pham ei fod yn bwysig
2. Defnyddio AI yn gyfrifol yn eich aseiniadau
3. Gweithredu Uniondeb Academaidd
4. Sut i gynnwys Uniondeb Academaidd yn eich gwaith
5. Beth sy'n digwydd os oes pryderon ynghylch eich gwaith
6. Y cymorth sydd ar gael -
7. Rhestr Termau

Cliciwch ar unrhyw un o'r pynciau uchod i fynd i'r adran honno

ADRAN 1

BETH YW UNIONDEB ACADEMAIDD A PHAM EI FOD YN BWYSIG

Mae'r adran hon yn cynnwys:


- Beth yw Uniondeb Academaidd?
- Pam mae Uniondeb Academaidd yn bwysig?

Beth yw Uniondeb Academaidd?

Gonestrwydd	Egwyddorion Proffesiynol
Tegwch	Tryloywder
Ymchwil	Atebolrwydd
Cynllunio	Dilysrwydd
Cyfeirnodi	Moesegol
Rheoli Amser	Beirniadol

Mae Uniondeb Academaidd yn fwy na dim ond osgoi mynd i drwbl – mae'n ymwneud â dysgu, tyfu, a bod yn falch o'r hyn rydych chi'n ei gyflawni.

Fel rhan o'n cyfres Sgyrsiau â Chyngor, fe wnaethon ni siarad â'r Brifysgol am Uniondeb Academaidd, deallusrwydd artiffisial, a pha gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr.



Pam mae Uniondeb Academaidd yn bwysig?

Isod mae rhai o'r prif resymau pam mae Uniondeb Academaidd yn bwysig

Mae'n dangos dysgu a dealltwriaeth

Mae'r sicrhau tegwch i bawb

Mae'n meithrin ymddiriedaeth yn eich gwaith

Mae'n eich darparu â sgiliau ar gyfer y dyfodol

Mae'n osgoi deilliannau academaidd negyddol – fel Camymddwyn Academaidd

Meddyliwch amdano fel dangos eich gwaith cyfrifo fel y byddech chi'n ei wneud â chwestiwn mathemateg. Os yw'r ateb gennych chi – mae'r Brifysgol eisiau gweld sut y bu i chi gyrraedd yno!

Cofiwch: nid yw'n ymwneud â bod yn berffaith na gwneud pethau'n iawn ar unwaith. Mae'n ymwneud â bod yn onest â'ch gwaith a'ch ymchwil a gofyn am help pan fydd ei angen arnoch.



ADRAN 2

DEFNYDDIO AI YN GYFRIFOL YN EICH ASEINIADAU

Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Beth yw AI?
- Deallusrwydd Artiffisial (AI) cynhyrchiol ac uniondeb academaidd.

Y defnydd moesegol o AI

Rhestr wirio AI

Pethau y dylech chi eu gwybod cyn defnyddio AI

2.0

Beth yw AI?

Mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cyfeirio at systemau cyfrifiadurol a all gynhyrchu testun, delweddau, syniadau a chynnwys arall trwy adnabod patrymau o swmp sylweddol o wybodaeth. Mae offer fel Gemini a Chat GPT yn enghreifftiau o AI cynhyrchiol.



Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol ac Uniondeb Academaidd

Mae deallusrwydd artiffisial yn dod yn rhan gynyddol gyffredin o fywyd prifysgol, ond nid yw'n newid egwyddorion Uniondeb Academaidd. Yn yr un modd ag y byddech yn gwerthuso hygrededd a pha mor ddibynadwy yw llyfrau, gwefannau ac erthyglau mewn cyfnodolion, byddech yn defnyddio'r un dull wrth ddefnyddio AI.

Defnydd Moesegol o AI

Dyma enghreifftiau o'r hyn y gellir eu hystyried yn "ddefnyddiau moesegol" neu ffyrdd o ddefnyddio AI yn gyfrifol

- Storm Syniadau
- Esbonio cysyniadau cymhleth
- Gwella eich dealltwriaeth
- Gwirio gramadeg neu eglurder geiriad
- Cael adborth ar strwythur

Os ydych chi wedi defnyddio AI, gofynnwch i chi'ch hun:

Ticiwch wrth i chi edrych yn ôl dros ar eich gwaith

- ○ Ydw i wedi dilyn canllawiau'r Brifysgol wrth ddefnyddio AI?
- ○ Ydw i wedi gwirio a chadarnhau'r wybodaeth y mae AI wedi'i ddarparu?
- ○ A allwn i esbonio i ddarlithydd sut rydw i wedi defnyddio AI yn gyfrifol?
- ○ A allwn i esbonio ac amddiffyn fy ngwaith yn fy ngeiriau fy hun pe bai gofyn i mi wneud hynny?
- ○ A yw'r gwaith hwn yn adlewyrchu fy nysgu a'm dealltwriaeth fy hun mewn gwirionedd?



Pethau i fod yn ymwybodol ohonynt wrth ddefnyddio AI:

- **Gall AI wneud camgymeriadau** - fel rhithwelediadau. Gwiriwch bob gwybodaeth o ran ffeithiau bob amser a byddwch yn feirniadol

- Gall ymatebion AI swnio'n hyderus, ond cofiwch fod AI yn fodel iaith mawr a **gall fod yn anghywir, ddim yn gyfoes neu'n rhagfarnllyd ar adegau.**

- **Peidiwch â defnyddio AI i ddisodli eich dysgu a'ch dealltwriaeth eich hun** - dylid ei ddefnyddio fel teclyn atodol, nid i dorri corneli


- Yn aml, gall offer AI arbed sgyrsiau a gwybodaeth a uwchlwythir, felly **peidiwch ag uwchlwytho gwybodaeth bersonol, gyfrinachol na sensitif** oni bai bod hynny wedi'i gymeradwyo gan y Brifysgol

- Gall offer AI helpu i wella eich dealltwriaeth, ond gall ymatebion fod yn brin o ddadansoddiad beirniadol ac academaidd, felly mae'n bwysig eich bod chi'n **cyfeirio at y cyfarwyddiadau ar gyfer eich aseiniad ac yn estyn allan am gymorth pellach os oes ei angen arnoch**

Cofiwch: gwrandewch ar ein podlediad lle rydyn ni'n trafod AI, sut i ddefnyddio offer AI yn foesegol, a'r hyn y mae angen i fyfyrwyr fod yn ymwybodol ohono.

"Using AI in your Assignments and Academic Integrity"

Gallwch wrando yma:
www.youtube.com/watch?v=ZYSPhEW4V1A



ADRAN 3

GWEITHREDU UNIONDEB ACADEMAIDD

Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Enghreifftiau o Uniondeb Academaidd ar waith

  Senarios posibl

  Beth allai fod wedi mynd o'i le

  Sut i osgoi'r sefyllfaoedd hyn

Enghreifftiau o Uniondeb Academaidd ar waith

Senario:	***Beth aeth o'i le?***	***Sut i'w osgoi***
Mae myfyriwr yn copïo ac yn gludo testun o wefan, ond nid yw'n cyfeirnodi hyn yn ei aseiniad.	Llên-landrad yw hyn - hyd yn oed os yw'r ffynhonnell ar-lein	Mynegwch syniadau yn eich geiriau eich hun a chyfeiriwch at y ffynhonnell rydych chi wedi'i defnyddio bob amser
Fe wnaeth myfyriwr aralleirio ffynhonnell ond ni chyfeiriodd at hynny yn ei aseiniad.	Hyd yn oed os ydych chi'n aralleirio, mae'r syniadau'n dal i fod yn eiddo i'r awdur gwreiddiol.	ADylech gyfeirnodi bob mser wrth ddefnyddio syniadau rhywun arall, hyd yn oed os ydych chi'n eu mynegi yn eich geiriau eich hun
Mae grŵp o fyfyrwyr yn rhannu paragraffau â'i gilydd ac yn eu defnyddio yn eu haseiniadau unigol eu hunain.	Cydgynllwynio yw hyn ac nid gweithio annibynnol	Gallwch drafod syniadau â'ch cyd-fyfyrwyr gan fod hyn yn aml yn ffordd effeithiol o wirio'ch dealltwriaeth, ond ysgrifennwch eich gwaith eich hun yn annibynnol bob amser gan ddefnyddio'ch dyfais a'ch cyfrif Microsoft eich hun.



Scenario:	***What went wrong?***	***How to avoid it***
Defnyddiodd myfyriwr AI i ysgrifennu rhannau o'i aseiniad a'i gyflwyno fel ei aseiniad ei hun.	Gellir ystyried hyn yn Gamymddwyn Academaidd a gall arwain at ganlyniadau difrifol.	Defnyddiwch AI yn foesegol a pheidiwch â'i ddefnyddio fel rhywbeth sy'n disodli eich dysgu a'ch dealltwriaeth eich hun yn llwyr. Gwiriwch y Cyfarwyddiadau ar gyfer yr Aseiniad bob amser i wirio pa ddefnydd o AI sy'n cael ei ganiatáu a pha ddefnydd sydd ddim yn cael ei ganiatáu.
Mae myfyriwr yn defnyddio AI i gynhyrchu rhestr o ddeunyddiau darllen neu ffynonellau i'w defnyddio ar gyfer eu haseiniad.	Gall rhai cyfeirnodau fod wedi'u ffugio, yn anghywir, neu ddim yn cyfateb i'r ffynonellau gwreiddiol y cyfeiriwyd atynt.	Peidiwch â dibynnu ar AI i gynhyrchu cyfeirnodau heb eu gwirio. Byddwch yn feirniadol ynglŷn â'r ffynonellau rydych chi'n eu defnyddio bob amser, a chyfeiriwch at y deunydd darllen a argymhellir.
Roedd myfyriwr wedi gadael ei aseiniad tan y funud olaf oherwydd cyfnod o salwch ac wedi gofyn i ffrind ei helpu i gwblhau'r gwaith.	Gellid ystyried hyn yn gydgynllwynio neu'n dwyllo trwy gontract os yw'r ffrind yn cyfrannu neu'n cwblhau rhan o'r aseiniad.	Ceisiwch gymorth yn gynnar trwy siarad â'ch darlithydd, a'r timau gwasanaeth cymorth. Os oes rhywbeth wedi digwydd sy'n golygu na fyddwch yn gallu cwblhau eich aseiniad, gallwch ystyried gwneud cais am 'Amgylchiadau Esgusodol'

ADRAN 4

SUT I GYNNWYS UNIONDEB ACADEMAIDD YN EICH GWAITH

Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Hintiau handi ar gyfer cynnwys Uniondeb Academaidd yn eich gwaith
  - Cyn i chi ddechrau eich gwaith
  - Pan fyddwch chi'n ymchwilio
  - Pan fyddwch chi'n ysgrifennu
  - Cyn i chi gyflwyno'r gwaith
- Argraffwch daflen waith myfyriol

4

Hintiau handi ar gyfer cynnwys Uniondeb Academaidd yn eich gwaith

Gall mynd ati i gynnwys yr arferion hyn yn eich proses ysgrifennu helpu i gynnal Uniondeb Academaidd yn eich gwaith ac osgoi unrhyw banig munud-olaf cyn eich terfyn amser.

Nid dim ond rhywbeth i feddwl amdano pan fyddwch chi'n barod i gyflwyno'ch aseiniad yw Uniondeb Academaidd. Dylid ei gynnwys yn y penderfyniadau a wnewch ar hyd y ffordd, o sut rydych chi'n cynllunio'ch amser i sut rydych chi'n trefnu'ch nodiadau i brawfddarllen eich gwaith cyn i chi bwyso'r botwm cyflwyno. Mae'r llinell-amser isod yn tynnu sylw at rai camau y gallwch eu cymryd ym mhob cam o'r broses i'ch helpu i deimlo mor hyderus â phosibl wrth gyflwyno'ch gwaith.

Cyn i chi ddechrau ar eich aseiniad:

- Darllenwch y Cyfarwyddiadau ar gyfer yr Aseiniad yn ofalus - mae pob asesiad yn wahanol o ran pa lefel o AI a ganiateir.
- Cynlluniwch faint o amser y bydd angen i chi ei dreulio yn paratoi ar gyfer ac ysgrifennu eich aseiniad
- Gofynnwch gwestiynau os nad ydych chi'n siŵr – os ydych chi'n meddwl am rywbeth, mae'n debygol y bydd rhywun arall yn meddwl amdano hefyd!

Pan fyddwch chi'n ymchwilio:


- Cadwch gofnod o'ch holl ffynonellau ac unrhyw beth rydych chi wedi'i ddefnyddio fel ymchwil – nodwch pam mae'r ffynonellau hyn yn ddefnyddiol
- Gwahanwch eich syniadau eich hun oddi wrth rai'r awduron
- Byddwch yn feirniadol a gwerthuswch eich ffynonellau – ydyn nhw'n ddibynadwy?

Pan fyddwch chi'n ysgrifennu:

- Mynegwch syniadau yn eich geiriau eich hun a gwiriwch eich dealltwriaethRefer to your Assignment Brief to make sure you're staying on task
- Cyfeiriwch at y Cyfarwyddiadau ar gyfer yr Aseiniad i wneud yn siŵr eich bod yn cadw at y dasg
- Cadwch olwg ar eich cyfeirnodau – peidiwch â gadael popeth tan y diwedd

Cyn i chi gyflwyno'r gwaith:

- Gwiriwch lefel tebygrwydd eich gwaith ymlaen llaw gan ddefnyddio dolen drafft *Turnitin ar Moodle*
- Prawfddarllenwch eich gwaith, gan wirio eich rhestr gyfeirnodau yn ogystal â chynnwys eich gwaith ysgrifenedig
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw copi o'r gwaith rydych wedi'i gyflwyno



Argraffwch y dudalen hon

Llenwch i fyfyrio'n ôl ar eich gwaith

Ffynhonnell	Beth mae'r ffynhonnell yn ei ddweud?	Fy meddyliau a'm myfyrdodau fy hun	Sut fydda i'n defnyddio hyn yn fy aseiniad?	Cwestiynau ar gyfer fy narlithydd

ADRAN 5.

BETH SY'N DIGWYDD OS OES PRYDERON YNGHYLCH EICH GWAITH

Mae'r adran hon yn cynnwys:


- Y camau ar gyfer pan fydd y Brifysgol yn cysylltu â chi ynghylch pryderon am ddilysrwydd eich gwaith

  - Pryderon cychwynnol
  - Yr hawl i ymateb
  - Canlyniad cychwynnol
  - Adolygiad o'r canlyniad

- Enghraifft o gyfrifo pwyntiau
- Sut mae'r Brifysgol yn cyfrifo pwyntiau
- Canllawiau pellach

Pryderon a Godwyd Ynglŷn â'ch Gwaith?

Os bydd y Brifysgol yn cysylltu â phryderon ynghylch dilysrwydd eich gwaith, nid yw hyn yn golygu eich bod wedi cael eich canfod yn awtomatig i fod wedi cyflawni Camymddygiad Academaidd. Bydd y Brifysgol yn dilyn eu gweithdrefn Camymddygiad Academaidd i ymchwilio i'r pryder cyn dod i benderfyniad terfynol. Mae'n bwysig eich bod chi'n deall eich hawliau yma, a'ch bod chi'n ymwybodol o'r goblygiadau ehangach os oes honiad o Gamymddygiad Academaidd.



Pryderon cychwynnol

Efallai y bydd pryder ynghylch Camymddygiad Academaidd yn cael ei nodi yn eich adborth Moodle. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y Brifysgol yn gofyn i chi fynychu 'viva'. Meddyliwch amdano fel cyfweliad am y gwaith rydych chi wedi'i gynhyrchu.

Efallai y gofynnir cwestiynau i chi ynghylch pwnc eich gwaith yn ogystal â sut yr aethoch chi ati i ymchwilio i'r gwaith a'i ysgrifennu. Mae gennych chi'r opsiwn o gael rhywun i fynychu gyda chi fel person cefnogol, ond ni allant siarad ar eich rhan.

Yr hawl i ymateb


Os bydd y Brifysgol yn symud ymlaen â'r honiad, mae gennych yr hawl i ymateb o fewn 14 diwrnod trwy gwblhau Adran D o Ffurflen Ymchwiliad SC05 a mynd i'r afael â phryderon y tiwtor a grybwyllir yma. Disgwylir i chi hefyd ddangos tystiolaeth o sut y gwnaethoch chi ysgrifennu, ymchwilio a chynllunio'r aseiniad. Efallai y cynigir cosb is i chi os ydych chi'n fodlon derbyn yr honiad i ddechrau. Os nad ydych chi'n siŵr a ddylech chi dderbyn yr honiad, cysylltwch ag adran Gynghori'r UM am gymorth. Ni fydd amgylchiadau lliniarol neu beidio â gwybod beth yw'r rheolau yn cael eu derbyn fel amddiffyniad.

Canlyniad cychwynnol

Unwaith y bydd y Panel Ymchwilio i Gamymddygiad Academaidd wedi adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd gennych, byddant yn cadarnhau'r gosb trwy e-bost. Mewn rhai achosion, efallai y gofynnir i chi fynychu Panel Ffurfiol. Os yw'r Brifysgol wedi parhau i anghytuno â chi, efallai y byddwch yn cael cosb fwy llym yn unol â'r system bwyntiau a eglurir yn Ffurflen Gosbau SC06.

Adolygiad o'r canlyniad

Unwaith y bydd y Brifysgol yn anfon e-bost atoch â'u penderfyniad, gallwch ofyn am adolygiad o'r penderfyniad o fewn 14 diwrnod gan ddefnyddio'r ffurflen SC11, ond mae angen i chi fodloni rhai amodau. Os byddwch yn llwyddiannus, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio'n ôl at y Panel Ymchwilio.





Enghraifft o Gyfrifo Pwyntiau:

Mae Sarah yn fyfyrwraig Lefel 7 a dim ond un honiad sy'n cael ei ystyried ar gyfer modiwl 20 credyd. Nid yw Sarah wedi cyflawni Camymddygiad Academaidd o'r blaen. Mae maint y Camymddygiad Academaidd yn ddifrifol.

DERBYN = 490 - Dyfernir marc o 0% (methu) ar gyfer pob cydran yn y modiwl

GWRTHOD = 530 – Caiff Sarah ei diarddel o'r brifysgol a'i gwahardd rhag unrhyw astudiaeth bellach yn y Brifysgol (ond caiff gadw credyd a enillwyd yn flaenorol)

Sut mae'r Brifysgol yn cyfrifo'r pwyntiau

Mae'r system bwyntiau'n rhoi ystyriaeth i lefel astudio, hanes Camymddwyn Academaidd, nifer yr honiadau sy'n cael eu hystyried, gwerth credyd y gwaith, a ydych chi'n derbyn neu'n gwrthod y cyhuddiad, a graddfa'r camymddwyn.

Am ganllawiau pellach, gweler Ffurflenni a Gweithdrefnau'r Brifysgol: https://www.uwtsd.ac.uk/procedures-academic-appeals-complaints-and-other-student-cases

ADRAN 6

PA GYMORTH SYDD AR GAEL

Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Beth mae gwahanol adrannau'n ei wneud a sut i gysylltu â nhw

6

Angen Cymorth?

Mae yna lawer o dimau wrth law i'ch cefnogi, ac yn aml mae'n fater o ddarganfod pa dîm all gynnig y cymorth sy'n iawn i chi. Isod fe welwch gymysgedd o adrannau academaidd ac anacademaidd a all eich helpu i feithrin eich sgiliau yn ogystal â'ch cefnogi ar eich taith yn y Drindod Dewi Sant.

Profi Amgylchiadau Annisgwyl?

Os yw salwch, amgylchiadau personol neu ddigwyddiad annisgwyl arall yn effeithio ar eich asesiad, efallai y byddwch yn dymuno gwneud cais am 'Amgylchiadau Esgusodol'. Gallwch wneud hynny o fewn 21 diwrnod i ddyddiad cau eich asesiad. Fel arfer bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth annibynnol i gefnogi eich cais.

Dysgu Digidol a Sgiliau Llyfrgell

- Defnyddio'r llyfrgell ar-lein. Referencing support.
- Cymorth cyfeirnodi
- Cymorth ymchwil.

E-bost: ***skills@uwtsd.ac.uk***

Anabledd

- Addasiadau rhesymol
- Mesurau gwneud iawn
- Canllawiau ar lwfans Myfyrwyr Anabl

E-bost: ***disability@uwtsd.ac.uk***

Llesiant

- Cyngor llesiant
- Cymorth cwnsela
- Llinell Gymorth i Fyfyrwyr 24/7

Ffurflen Cais am Gymorth Gwasanaeth Llesiant PCyDDS

Myfyrwyr Rhyngwladol

Os ydych chi'n fyfyriwr rhyngwladol sy'n mynd trwy broses Camymddygiad Academaidd, mae'n bwysig eich bod chi'n cysylltu â ni am gyngor cyn gynted â phosibl yn ogystal ag anfon e-bost at immigrationcompliance@uwtsd.ac.uk

Os caiff honiadau o Gamymddygiad Academaidd eu cadarnhau, gall hyn effeithio ar ddyddiad gorffen eich cwrs a'ch fisa.

Am gyngor allanol annibynnol gallwch gysylltu ag UKCISA: Elusen sy'n Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol yn y DU: www.ukcisa.org.uk

Cyfleoedd Undeb y Myfyrwyr

Fel rhan o'r Wythnos Sgiliau, cynhaliodd tîm Cyfleoedd yr UM amrywiaeth o sesiynau am ddim gan gynnwys:

- Tynnu lluniau pen-ac-ysgwyddau ar gyfer LinkedIn
- Adeiladu Sgiliau Meddal
- Elfennau Sylfaenol Cyfweliadau am Swydd

E-bost: su.opps@uwtsd.ac.uk

Sgiliau Llyfrgell Academaidd Moodle

Gallwch hefyd gael mynediad at Fodiwl Sgiliau Academaidd a Gwybodaeth Sgiliau ar Moodle sy'n cynnwys canllawiau defnyddiol ynghylch cyfeirnodi, llên-ladrad, a deallusrwydd artiffisial.

Sganiwch y côd QR i hunan-gofrestru!

CYSYLLTU Â'R TÎM CYNGHORI

Cofiwch, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am eich hawliau neu'r gefnogaeth sydd ar gael os ydych chi'n mynd trwy broses Camymddygiad Academaidd, gallwch gysylltu â'n Gwasanaeth Cynghori i gael arweiniad annibynnol a chyfrinachol am ddim.

E-bost: su.advice@uwtsd.ac.uk

RHESTR TERMAU

Mae'r adran hon yn cynnwys:

- Geirfa - ymadroddion y gallech ddod ar eu traws trwy'r pecyn cymorth hwn ac wrth astudio yn y Drindod Dewi Sant

Uniondeb Academaidd

Cydymffurfio ag egwyddorion, safonau, arferion a system gyson o werthoedd moesegol a phroffesiynol, sy'n gwasanaethu fel canllaw ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu ym maes addysg, ymchwil ac ysgolheictod.

Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Technoleg sy'n galluogi cyfrifiaduron i gyflawni tasgau fel dysgu, rhesymu, adnabod patrymau, a gwneud penderfyniadau – er enghraifft, Netflix neu Spotify yn argymell cynnwys.

Camymddygiad Academaidd

Unrhyw weithred gan fyfyriwr sy'n rhoi, neu sydd â'r potensial i roi mantais annheg mewn arholiad neu asesiad neu a allai gynorthwyo rhywun arall i gael mantais annheg, neu unrhyw weithgaredd sy'n debygol o danseilio'r uniondeb sy'n hanfodol i ysgolheictod ac ymchwil.

Llyfryddiaeth (Yn aml yn cael ei galw'n Rhestr Gyfeirnodi)

Rhestr o ffynonellau sy'n rhoi sail a/neu'n cefnogi'r honiadau a wneir yn y gwaith.

Cyfeirnod

Nodyn yn y testun gan ddefnyddio arddull gyfeirnodi gydnabyddedig sy'n nodi ffynhonnell syniad neu ffaith ac yn gweithredu fel dolen i gyfeirnod manylach yn adran Llyfryddiaeth neu Gyfeirnodau'r gwaith.

Cydgynllwynio

Gweithio gyda rhywun arall ar asesiad y bwriedir iddo fod yn waith unigol ac yn arwain at gyflwyno gwaith sy'n sylweddol wahanol i'r hyn a ysgrifennoch chi'n wreiddiol.

Awduraeth Ffug

Lle mae rhywun yn cwblhau gwaith ar ran myfyriwr, sydd wedyn yn ei gyflwyno fel ei waith ei hun – er enghraifft, defnyddio gwasanaeth ysgrifennu traethodau.

Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

Math o AI sy'n creu cynnwys newydd. Er enghraifft, gofyn i AI gynhyrchu delwedd o awgrym.

Panel

Gweithdrefn ffurfiol mewn perthynas â Pholisi Apêl, Polisi Cwynion, Polisi Camymddygiad Academaidd, Polisi Camymddygiad Anacademaidd, Cymorth ar gyfer Astudio ac Addasrwydd i Arfer, lle mae panelwyr yn trafod elfennau cymhleth o achos y myfyriwr.

Llên-ladrad

Cyflwyno gwaith neu syniadau rhywun arall fel eich rhai chi. Gall hyn gynnwys defnyddio gwaith awdur arall neu ddefnyddio meddalwedd aralleirio awtomataidd.

Arfer Academaidd Gwael

Rhywfaint o weithredu'n groes i gonfensiynau academaidd safonol, fel cyfeirnodi neu briodoli gwael neu or-ddibynnu ar ddeunydd rydych wedi cyfeirio ato. Mae hyn hefyd yn cynnwys methu â deall a dilyn cyfarwyddiadau ar gyfer yr asesiad

Adolygiad o Ganlyniad

Proses y gall myfyrwyr ofyn amdani ar ôl derbyn penderfyniad cychwynnol gan y Swyddfa Academaidd, lle gofynnir i swyddog achos newydd gynnal ymchwiliad.

Hunan-Lên-Ladrad

Pan fo myfyriwr yn cyflwyno gwaith y mae eisoes wedi'i gyflwyno ar gyfer asesiad arall pan nad yw hyn yn cael ei ganiatáu.

Viva

Cyflwyniad llafar i benderfynu a oes digon o dystiolaeth i gefnogi honiad o gamymddwyn academaidd.

